

# Gweithdy hawl i chwarae

Tachwedd 2020

© Chwarae Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ar wahân i'r adnoddau, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'idrosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwar Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

www.chwaraecymru.org.uk

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Am y Gweithdy hawl i chwarae | 4 |
| Beth yw'r gweithdy? | 4 |
| Ar gyfer pwy mae'r gweithdy? | 4 |
| Pam ddatblygwyd y gweithdy hwn? | 4 |
| Sut ddatblygwyd y gweithdy? | 4 |
| Sut ddylid defnyddio'r gweithdy? | 4 |
| Beth mae wedi ei ddylunio i'w wneud? | 4 |
| Hawliau plant | 5 |
| Polisi Chwarae Cenedlaethol | 5 |
| Dyletswyddau statudol | 5 |
| Pa bolisïau a deddfwriaethau sy'n cefnogi hyn? | 5 |
| Lles ac agweddau at ddysgu | 6 |
| Profiadau dysgu | 6 |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | 6 |
| Sut mae'r Gweithdy hawl i chwarae yn cydgysylltu â Chwricwlwm Cymru a Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn? | 6 |
| Trosglwyddo'r Gweithdy hawl i chwarae – nodiadau i hwyluswyr | 8 |
| Pwyntiau cyffredinol | 8 |
| Adnoddau | 8 |
| Trosglwyddo'r gweithdy | 9 |
| Mynd i'r afael â rhwystrau | 10 |
| Cynllunio gweithredu | 10 |
| Cynllun sesiwn | 11 |
| Defnyddio'r Goeden Gynllunio | 15 |
| Cerdyn bingo hawl i chwarae | 17 |
| Poster hawl i chwarae CCUHP | 18 |
| Deilliannau dysgwyr | 19 |
| Syniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm | 20 |
| Celfyddydau Mynegiannol | 20 |
| Iechyd a Lles | 20 |
| Y Dyniaethau | 20 |
| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 20 |
| Mathemateg a Rhifedd | 20 |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 20 |
| Chwarae plant: adnoddau i gefnogi | 21 |

# Am y Gweithdy hawl i chwarae

Mae chwarae'n allweddol i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. Trwy chwarae, bydd plant yn datblygu gwytnwch a hyblygrwydd, sy'n cyfrannu at eu lles corfforol ac emosiynol. Mae chwarae'n golygu bod plant yn gwneud fel y mynnant yn eu hamser eu hunain ac yn eu ffordd eu hunain. Mae'n cynnwys nodweddion allweddol hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a pheidio bod yn gynhyrchiol.

Mae gan blant hawl i chwarae, fel y cydnabyddir yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Chwarae yw un o agweddau pwysicaf a mwyaf uniongyrchol bywydau plant – maent yn gwerthfawrogi amser, rhyddid a mannau o safon i chwarae.

## Beth yw'r gweithdy?

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth plant am eu hawl i chwarae, mae Chwarae Cymru wedi datblygu cynllun ac adnoddau gweithdy i gynorthwyo gyda hyrwyddo, cyfranogi ac eiriol dros hawl plant i chwarae'n lleol.

## Ar gyfer pwy mae'r gweithdy?

Mae'r gweithdy wedi ei ddylunio ar gyfer gweithwyr chwarae, gweithwyr cyfranogaeth, gweithwyr ieuenctid a staff ysgolion i'w hwyluso mewn ysgolion a lleoliadau strwythuredig eraill. Mae'r gweithdy a'r adnoddau wedi eu dylunio i'w defnyddio gan unrhyw un sydd â dealltwriaeth ymarferol o sut i gefnogi a hwyluso chwarae plant gan ddefnyddio agwedd gwaith chwarae. Gallent fod yn weithwyr chwarae, gweithwyr datblygu chwarae neu'n aelod o staff dysgu. Bydd Chwarae plant: adnoddau i gefnogi hefyd yn helpu hwyluswyr sydd â gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r *Gweithdy hawl i chwarae*.

## Pam ddatblygwyd y gweithdy hwn?

Mae plant a phlant yn eu harddegau yn dweud wrthym dro ar ôl tro bod chwarae'r tu allan a chwrdd â'u ffrindiau'n eu cymuned eu hunain yn bwysig iddynt. Maent hefyd yn dweud wrthym yn barhaus eu bod angen mwy o amser, lle a chaniatâd i chwarae.

## Sut ddatblygwyd y gweithdy?

Ymgysylltodd Chwarae Cymru gydag arbenigwyr cyfranogi i ddatblygu'r *Gweithdy hawl i chwarae*. Yna, fe wnaethom gynhyrchu'r adnoddau hyn, gan ehangu ar waith Dynamix a'u cyhoeddiad *Children's rights Spice 'em Up*. Fe wnaethom weithio â nifer penodol o ysgolion er mwyn peilota a gwerthuso'r rhaglen.

## Sut ddylid defnyddio'r gweithdy?

Mae'r gweithdy'n canolbwyntio ar yr hawl i chwarae yn gyffredinol, yn hytrach nag yn yr ysgol yn benodol. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai cymryd rhan yn y gweithdy arwain at weld y plant yn dymuno canolbwyntio ar chwarae yn eu hysgol – ar draws y cwricwlwm, y gofod chwarae a chyfleoedd yn ystod amser chwarae a beth sy'n digwydd ar ôl ysgol. Mae'r adnoddau wedi'u dylunio i'w defnyddio mewn ysgolion ac maent yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer gweithdy dan arweiniad hwylusydd ac at ddefnydd gan yr ysgol yn dilyn y gweithdy.

Mae'r adnoddau'n cynnwys:

- Cynllun sesiwn a nodiadau ar gyfer hwyluswyr
- Deilliannau i ddysgwyr
- Poster yn hyrwyddo hawl i chwarae CCUHP
- Poster y Goeden Gynllunio i'w ddefnyddio i helpu plant i gynllunio sut yr hoffen nhw rannu'r wybodaeth y maent wedi ei dysgu
- Taflen waith i ddisgrifio sut i hwyluso defnyddio'r Goeden Gynllunio
- Syniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm mewn ysgolion.

## Beth mae wedi ei ddylunio i'w wneud?

Mae'r *Gweithdy hawl i chwarae* wedi ei ddylunio i alluogi plant a phlant yn eu harddegau i eiriol yn well dros gyfleoedd gwell i chwarae a chwrdd â'u ffrindiau.

# Pa bolisïau a deddfwriaethau sy'n cefnogi hyn?

## Hawliau plant

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn amlinellu 54 o erthyglau sy'n diffinio sut y dylid trin plant a phobl ifanc a'r modd y dylai llywodraethau fonitro'r confensiwn. Mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi arwyddo'r confensiwn hwn. Mae tair erthygl yn benodol sy'n ddefnyddiol i'w hystyried wrth ddarparu ar gyfer chwarae plant:

- **Erthygl 31: Yr hawl i hamdden, chwarae a diwylliant**
  Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, artistig ac adloniadol eraill.
- **Erthygl 12: Parchu barn y plentyn**
  Pan fo oedolion yn llunio penderfyniadau fydd yn effeithio ar blant, bydd gan blant hawl i ddweud yr hyn y maent yn credu ddylai ddigwydd ac i'w barn gael ei hystyried.
- **Erthygl 15: Rhyddid i ymgysylltu**
  Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd.

## Polisi Chwarae Cenedlaethol

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru arddangos ei ymrwymiad i chwarae plant yn ei Bolisi Chwarae (2002) cenedlaethol. Mae'r Polisi'n datgan bod:

> *'Chwarae'n cwmpasu ymddygiad plant a ddewisir o wirfodd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Nid yw'n cael ei berfformio er mwyn nod neu wobr allanol, ac mae'n rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach – nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond hefyd ar gyfer y gymdeithas y maent yn byw ynddi.'*

Mae'r gydnabyddiaeth hon o bwysigrwydd chwarae i gymdeithas a chymunedau'n sail i holl gynnwys y *Gweithdy hawl i chwarae*.

## Dyletswyddau statudol

Yn 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu dros chwarae gyda Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal. Mae *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, cyfarwyddyd statudol i awdurdodau lleol, yn amlinellu ystod eang o Faterion ar draws nifer o feysydd polisi y mae angen eu hystyried.

Daw'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae fel rhan o agenda Llywodraeth Cymru yn erbyn tlodi sy'n cydnabod y gall plant ddioddef o dlodi profiad, cyfle ac uchelgais, ac y gall y math hwn o dlodi effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar draws Cymru.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth lunio penderfyniadau. Mae Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys egwyddorion sylfaenol ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses llunio penderfyniadau. Mae'r safonau'n egluro'r hyn ddylai plant a phobl ifanc ei ddisgwyl wrth iddynt gael gwrandawiad o ran gwybodaeth, dewis, dim gwahaniaethu, parch, buddiannau i blant a phobl ifanc, sut y bydd plant a phobl ifanc yn derbyn adborth a sut y bydd darparwyr gwasanaethau'n gwella ansawdd.

Yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2015), mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr hawl i chwarae. Mae'r strategaeth yn nodi bod cyfleoedd i blant a phlant yn eu harddegau chwarae'n cyfrannu at liniaru effeithiau negyddol tlodi ar eu bywydau ac yn helpu i feithrin eu cadernid a'u lles cyffredinol. Hefyd, mae darparu cyfleoedd i blant a phlant yn eu harddegau chwarae yn eu cymunedau yn gallu bod yn ffordd o leihau anghydraddoldebau rhwng plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n gallu fforddio darpariaeth hamdden gostus a'r rheini nad ydynt yn gallu ei fforddio, gan felly leihau tlodi o ran profiadau i bob plentyn.

## Sut mae'r Gweithdy hawl i chwarae yn cydgysylltu â Chwricwlwm Cymru a Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn?

Elfen bwysig o'r gweithdy yw cyfranogiad gweithredol plant a rhannu gwybodaeth gyda phlant eraill, athrawon a chymuned ehangach yr ysgol. Mae'r gweithdy'n cysylltu gyda nifer o agweddau o 12 Egwyddor Addysgeg Donaldson, fel y nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus*:

- Annog dysgwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu dysg eu hunain
- Cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasau positif
- Hybu cydweithio
- Hybu meddwl creadigol a beirniadol a datrys problemau
- Ehangu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol er mwyn ennyn diddordeb.

Mae cyfranogi yn y gweithdy'n cysylltu gyda nifer o elfennau o Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn, yn benodol:

- Lles ac agweddau at ddysgu
- Profiadau dysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Bydd y gweithdy'n annog y plant i feddwl am y cyfleoedd y maent yn eu cael i chwarae yn eu cymunedau eu hunain, dynodi'r rhwystrau i hyn ac amlygu camau gweithredu i'w gwneud yn haws iddyn nhw chwarae'r tu allan a theimlo'n rhan o'u cymuned.

Mae'r gweithdy'n hybu cyfranogaeth weithredol pob un o'r plant. Mae'r Syniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm yn cynnig awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gellid ymgorffori chwarae mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, os hoffai'r plant archwilio'r hawl i chwarae ymhellach. Mae'r agwedd gyfranogol yn galluogi plant i fod yn ddinasyddion gweithgar a datblygu eu hymdeimlad o berthyn i gymuned eu hysgol.

### Profiadau dysgu

Mae'r gweithdy'n annog cyfathrebu gweithredol trwy wrando ar eraill a chyfrannu i'r drafodaeth. Bydd annog y plant i rannu canfyddiadau'r gweithdy gyda'r cyngor ysgol, mewn gwasanaethau ysgol a chyfarfodydd llywodraethwyr yn eu cefnogi ymhellach yn y maes hwn.

Mae'n annog y plant i ddynodi rhwystrau a mecanweithiau cefnogol i'w chwarae. Mae'r gweithdy'n annog plant i ddatblygu eu syniadau eu hunain a gwneud awgrymiadau ar gyfer y cynllunio.

Mae hefyd yn annog plant i weithio gyda staff yr ysgol a'u cyfoedion i ystyried pwysigrwydd chwarae. Trwy ddatblygu gwybodaeth am eu hawl i chwarae, annogir y plant i ddeall ei bwysigrwydd i blant eraill, yn blant y maent yn eu hadnabod a phlant o bob cwr o'r byd.

Mae myfyrio, trafod a chynllunio'n elfennau pwysig o'r gweithdy. Caiff plant sy'n cymryd rhan yn y gweithdy gyfle i:

- Ddadlau
- Archwilio
- Gynllunio
- Gyflwyno i'w cyd-ddisgyblion
- Flaenoriaethu gwybodaeth
- Ddefnyddio sgiliau llythrennedd
- Ymgynghori â'u cyfoedion
- Ddysgu am eu hawl i chwarae.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r gweithdy'n darparu cyd-destun ble gall plant a phlant yn eu harddegau ddysgu trwy eu rhyngweithiadau gydag eraill:

- Datblygu'r sgiliau cymdeithasol a gwybyddol sydd eu hangen i ddeall a gallu estyn llaw i eraill.

- Gorfod ystyried anghenion a safbwynt y lleoliad cyfan. Mae hyn yn ymwneud â datblygu cyfrifoldeb personol a chymdeithasol.
- Deall bod gan bob plentyn hawl cyfartal i chwarae.
- Derbyn bod gan y modd y byddwn yn ymwneud ag eraill ganlyniadau cadarnhaol yn ogystal â rhai negyddol. Gellir profi hyn trwy gael oedolion i hwyluso'r gweithdy mewn ffyrdd sy'n rhoi cyfle i bob plentyn archwilio mentro'n gymdeithasol ac yn emosiynol a llunio penderfyniadau.

Mae hwyluso'r gweithdy'n galluogi:

- Plant a phlant yn eu harddegau i brofi sefyllfaoedd sy'n gofyn iddyn nhw ystyried sut y maent yn trin eraill.
- Archwilio prosesau llunio penderfyniadau democrataidd trwy'r broses o wreiddio chwarae rhannau rhydd yn ogystal â'r chwarae ei hun.

Mae'r gweithdy'n cynnig cyfle i blant, o bosibl, gyfrannu at gynlluniau gwella o ran eu chwarae yn yr ysgol. Bydd adrodd am ganlyniadau'r cynllunio i'r corff llywodraethol, er enghraifft, yn annog cyfathrebu da rhwng y disgyblion a'r llywodraethwyr.

Mae'r gweithdy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Bydd y gweithdy'n archwilio'r Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 o GCUHP. Mae Sylw Cyffredinol yn ddatganiad swyddogol sy'n ehangu ar ystyr agwedd o GCUHP sy'n galw am ddehongliad neu bwyslais pellach. Bwriad y Sylw Cyffredinol yw pwysleisio pwysigrwydd Erthygl a chynyddu atebolrwydd ymysg gwledydd sydd wedi arwyddo'r confensiwn.

Bydd y plant yn dysgu mwy am y Sylw Cyffredinol, a ysgrifennwyd i helpu llywodraethau a phobl eraill i ddeall pwysigrwydd chwarae, adloniant, diwylliant a'r celfyddydau. Mae hefyd yn helpu llywodraethau o amgylch y byd i sicrhau y gall pob un ohonom fwynhau'r hawliau hyn.

Yn ogystal, dylai'r adnoddau a ddarperir helpu athrawon i ddeall pwysigrwydd hybu a gwarchod hawliau yn amgylchedd yr ysgol a'r gymuned ehangach.



# Trosglwyddo'r Gweithdy hawl i chwarae – nodiadau i hwyluswyr

Mae'r nodiadau hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun sesiwn a bwriedir iddynt gynorthwyo hwyluswyr y *Gweithdy hawl i chwarae* i drosglwyddo ac addasu'r sesiwn i ateb anghenion y grŵp.

## Pwyntiau cyffredinol

Cynlluniwyd y *Gweithdy hawl i chwarae* gan ystyried plant Cyfnod Allweddol 2 yn bennaf. Fodd bynnag, gyda rhywfaint o waith addasu fe'i trosglwyddwyd hefyd i blant y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 1 a 2) a disgyblion ar ddechrau Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 7).

Bwriad y cynllun sesiwn yw darparu fframwaith ichi. Gellir defnyddio gwahanol ddulliau i gyfleu'r gwahanol bwyntiau, a chaiff rhywfaint o opsiynau eraill eu hystyried yn y nodiadau hyn.

Mae'r gweithdy a'r adnoddau wedi eu dylunio i gael eu defnyddio gan unrhyw un sydd â dealltwriaeth ymarferol o sut i gefnogi a hwyluso chwarae plant gan ddefnyddio agwedd gwaith chwarae. Gallai fod yn weithiwr chwarae, yn weithiwr datblygu chwarae neu'n aelod o staff addysgu. Bydd Chwarae plant: adnoddau i gefnogi hefyd yn helpu hwyluswyr gyda gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r *Gweithdy hawl i chwarae*.

Gellir trosglwyddo'r *Gweithdy hawl i chwarae* i 15-30 o blant, felly mae'n ddelfrydol i'w gyflwyno i ddosbarth o blant neu i gyngor ysgol. Mae natur y gweithgareddau a'r drafodaeth yn golygu ei fod yn anaddas ar gyfer grwpiau mwy o faint.

Mae'r gweithdy'n para 90 munud. Byddem yn cynghori'n fawr gynnwys rhywfaint o amser chwarae yn y sesiwn hwn. Pe bae modd i'r hwyluswyr arsylwi amser chwarae arferol yn yr ysgol cyn cynnal y sesiwn, gallai hynny gynorthwyo gyda'r trafodaethau a geir yn ystod y gweithdy. Mae hefyd yn gweithio'n dda fel cyflwyniad i ymgorffori chwarae rhannau rhydd mewn amserau chwarae.

Gellir trosglwyddo'r gweithdy ar ei ben ei hun ond mae hefyd yn fodd defnyddiol ar gyfer cychwyn perthynas gydag ysgol. Yna gellir dilyn y 'cynllun gweithredu' a ddatblygir yn ystod y gweithdy gyda rhagor o waith, os dymunir.

Bydd y gweithdy'n fwy effeithlon os bydd staff addysgu eraill ac uwch-aelod o staff yn cymryd rhan hefyd a bod modd iddynt glywed yr hyn sydd gan y plant i'w ddweud – yn enwedig os bwriedir cynnal gwaith dilynol.

## Adnoddau

Dim ond ychydig adnoddau ychwanegol fydd eu hangen ar gyfer y gweithdy.

Byddwch angen 'cist offer' yn cynnwys y canlynol, o leiaf:

- Papur siart fflip
- Rholiau mawr o bapur (fel papur wal)
- Pennau ysgrifennu siart fflip
- 'Blue Tack'
- Papur gludiog siâp dail (ar gyfer y Goeden Gynllunio)
- Smotiau gludiog bob lliw.

A'r adnoddau argraffedig:

- Arwyddion parod: 'Mae chwarae'n bwysig' ac 'Mae chwarae'n hawl'
- Cerdyn Bingo (os ydych am eu defnyddio)
- Lluniau o blant yn chwarae – ceisiwch gynnwys amrywiaeth o wahanol fathau o chwarae a lleoedd ble gallai plant chwarae
- Coeden Gynllunio (wedi ei hargraffu mor fawr â phosibl, yn ddelfrydol ar bapur A1)

Adnoddau ychwanegol i gefnogi cynllunio ar ôl y gweithdy:

- Syniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm
- Coeden Gynllunio (fel y gallant barhau i gynllunio ar ôl y gweithdy)
- Deilliannau dysgu (mae hwn yn ddefnyddiol hefyd cyn y gweithdy er mwyn egluro beth yw bwriad y gweithdy wrth staff eraill).

## Trosglwyddo'r gweithdy

Mae fformat y gweithdy wedi ei ddylunio i fod yn broses raddol sy'n dechrau gyda deall yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth ddweud 'chwarae'. Mae'n symud ymlaen i ddeall 'hawliau' a CCUHP. Mae'r gweithdy'n gorffen trwy gael y plant i edrych ar eu hamseroedd chwarae eu hunain yn yr ysgol a sut i fynd i'r afael â rhwystrau i chwarae a hyrwyddo'r hawl i chwarae. Gallwch addasu'r dulliau a nodir yng nghynllun y sesiwn, ond byddem yn cynghori glynu at y fformat cyffredinol isod.

### Cyflwyniad

Cyflwynwch y gweithdy yn eich arddull eich hun gan sicrhau fod y plant yn ymwybodol o'r arwyddion 'Mae chwarae'n bwysig' ac 'Mae chwarae'n hawl'. Mae'n ddefnyddiol hefyd i gyfleu, yn gyffredinol, beth yw rôl eich swydd chi.

### Creu darlun

Mae'r gweithgaredd cyntaf yn cynnwys cael y plant i edrych o amgylch yr ystafell ar y lluniau o blant yn chwarae, ar y waliau. Dylid argraffu'r rhain mewn lliw ar un ochr a du a gwyn ar yr ochr arall. I ddechrau, dangoswch y lluniau du a gwyn. Pan ddaw'r grwpiau'n ôl at ei gilydd gallwch gael trafodaeth os ydyn nhw'n cael gwneud y pethau hyn, fydden nhw'n hoffi eu gwneud ac os ydyn nhw'n weithgareddau cyfoes neu 'o'r hen ddyddiau'. Daw'r gweithgaredd i ben gyda'r plant yn mynd yn ôl at y lluniau a'u troi drosodd i sylweddoli bod pob llun o blant heddiw. Bydd hyn yn sbarduno'r plant i feddwl am wahanol fathau o brofiadau chwarae a rhwystrau posibl.

### Asesiad cychwynnol

Bwriad y gweithgaredd hwn yw cael syniad ynghylch beth yw gwybodaeth bresennol y plant a'u cael i feddwl am hawliau yn y synnwyr ehangach – nid dim ond yr hawl i chwarae. Mae'r pwyntiau yn y cynllun sesiwn ac ar y cardiau bingo i gyd yn cyfeirio at wahanol hawliau (er enghraifft, yr hawl i addysg, cred grefyddol, hunaniaeth). Gellir defnyddio'r cardiau bingo gyda'r plant hŷn, ond gellir defnyddio'r cwestiynau hefyd i chwarae '*the wind blows*' neu '*fruit salad*', ble bydd y plant yn croesi'r cylch os yw'r elfen yn berthnasol iddyn nhw. Mae'r addasiad hwn yn dda gyda phlant iau a gallwch hefyd ychwanegu elfennau hwyliog eraill (fel, beth gafon nhw i frecwast neu pwy sy'n hoffi gemau penodol).

Ar ddiwedd y gweithgaredd hwn mae'n bwysig pwysleisio:

- Bod hawliau'n ymwneud ag anghenion (nid yr hyn yr ydym ei eisiau)
- Bod CCUHP yn ddogfen bwysig y mae pob llywodraeth wedi ei llofnodi (gyda phlant iau, byddai'n helpu ichi gyfeirio at y prif weinidog)
- Mae chwarae yn rhan o GCUHP a'i fod felly'n cael ei ystyried yr un cyn bwysiced ag addysg, to dros eich pen a hyd yn oed cael enw.

Gall y term 'hawliau' fod braidd yn annelwig i rai plant felly, er mwyn pwysleisio eu pwysigrwydd, gofynnwch i'r plant ddychmygu bywyd heb hawliau penodol, fel dysgu neu heb ryddid i ddathlu digwyddiadau crefyddol (fel y Nadolig) neu heb orffwys a chwarae.

### Pam fod chwarae'n bwysig

Y cam nesaf yw cael y plant i ystyried pam fod chwarae mor bwysig. Gan ddechrau gydag amser chwarae yn yr ysgol, rhannwch y plant yn grwpiau bychain i ystyried y cwestiwn, '*Pam ydych chi'n credu bod yr athrawon yn gadael ichi gael amser chwarae?*' neu '*Pam fod amser chwarae'n bwysig i chi?*'

Wedi ystyried amser chwarae, mae'r sesiwn yn symud ymlaen i edrych ar fuddiannau chwarae. Unwaith eto, ceir gwahanol opsiynau ar gyfer trosglwyddo'r elfen hon ond mae'r frawddeg

'*Mae chwarae'n eich helpu i…*' yn fan cychwyn da. Gallwch:

- ddarllen o'r rhestr a chael y plant i bleidleisio â'u cardiau
- rhedeg o amgylch yr ystafell at luniau o wyneb hapus / trist er mwyn i'r plant bleidleisio trwy symud
- ei chwarae fel gêm cylch, fel '*the wind blows*'.

Os ydych yn dewis defnyddio '*the wind blows*', gosodwch gadair ychwanegol yng nghanol y cylch. Gofynnwch i bwy bynnag sy'n gorffen yn y gadair honno i gwblhau'r frawddeg '*Mae chwarae'n eich helpu i…*' yna gofyn i'r plant symud ar draws y cylch os ydyn nhw'n cytuno.

Ar ddiwedd y gweithgaredd hwn, dewch â'r ffocws yn ôl at GCUHP a pham fod chwarae mor bwysig am yr holl resymau y maent wedi eu dynodi a'i fod yn eu helpu i ddysgu'n well, i wneud yn well yn yr ysgol ac i fod yn hapus. Gallwch hyd yn oed gael y plant i lafarganu '*Mae chwarae'n bwysig!*' / '*Mae chwarae'n hawl!*'

Dylech gyfeirio at y Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 yma. Gallwch ddefnyddio'r deunyddiau plant-gyfeillgar a gynhyrchwyd gan yr International Play Association (IPA).

## Mynd i'r afael â rhwystrau

Os ydych am gael egwyl, nawr fyddai'r adeg orau i'w gymryd cyn cychwyn ar ddwy adran derfynol y sesiwn.

Gan ddefnyddio dalen fawr o bapur wal, tynnwch luniau'r pethau y mae'r plant yn eu hoffi am amser chwarae a'u buarth chwarae. Os ydych wedi arsylwi amser chwarae, gallai helpu i ddethol pethau yr ydych wedi arsylwi'r plant yn eu gwneud. Yna meddyliwch beth fyddai'n ei wneud yn well a pha bethau eraill yr hoffai'r plant allu eu gwneud. Mae hyn yn bwerus iawn ar gyfer athrawon fydd, efallai, ddim yn sylweddoli'r pethau y mae plant yn eu gwerthfawrogi mewn gwirionedd neu'r hyn yr hoffent ei wneud yn ystod eu hamser chwarae.

Mae'r adran nesaf yn defnyddio cardiau mynegai i ddynodi pa bethau sy'n amharu ar eu gweledigaeth (er enghraifft, oedolion, arian, lle, rheolau) ac yna gosod y cardiau ar ben y llun a chreu cysylltiadau gweledol i'r 'rhwystrau'. Gellir gwneud hyn ar y llawr hefyd a defnyddio balwnau fel y rhwystrau – yna, gellir rhoi pin yn y rhain yn ystod yr adran derfynol i'w chwalu.

## Cynllunio gweithredu

Unwaith bod y rhwystrau'n cuddio'r darlun cyfoethog, agorwch y drafodaeth i ystyried sut i gael gwared â'r rhwystrau hyn. Yma gallwch ddechrau cynnwys y cynllunio gweithredu (gweler Defnyddio'r Goeden Gynllunio) a gosod dail ar y goeden wrth ichi feddwl am syniadau ar gyfer chwalu'r rhwystrau hyn!

Os oes sesiynau dilynol wedi'u trefnu, gallwch ddod yn ôl at y Goeden Gynllunio'n aml i edrych ar eich cynnydd. Os ydych yn gweithio ar bolisïau chwarae gyda'r ysgol, gall y dail eich helpu gyda beth gaiff ei gynnwys yn y polisi hwnnw.

Mae'n syniad da i gasglu rhywfaint o feddyliau am yr hyn y gallai'r plant ei wneud ar ôl y gweithdy, er mwyn eu helpu i feddwl am gamau gweithredu posibl. Gallai hyn gynnwys rhoi cyflwyniad i weddill yr ysgol neu i'r llywodraethwyr, paratoi arddangosfa hawl i chwarae i'w gosod yn y coridor neu ddysgu mwy am chwarae mewn gwersi (gweler Syniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm).

**Gobeithio y gwnewch fwynhau cynnal y *Gweithdy hawl i chwarae* ac y bydd y plant wrth eu bodd yn clywed am eu hawl i chwarae.**



# Cynllun sesiwn

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Athro / Athrawes** | | **Dyddiad** | | **Ystafell** | |
| **Cwrs / testun** | Hawl i chwarae | **Amser** | | **Hyd** | 90 munud |
| **Nod** | I gynyddu ymwybyddiaeth plant am GCUHP a'u hawl i chwarae, trwy weithdy diddorol, hwyliog gyda chyfleoedd a syniadau ar gyfer ymchwiliadau pellach yn yr ystafell ddosbarth | | | | |

| Amseru | Gweithgareddau ac adnoddau athrawon | Gweithgareddau dysgwyr | Tystiolaeth cyflawni'r deilliannau dysgu | Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| 00:00 | Cyflwyniad:<br>Pwy ydw i?<br>Beth yw fy swydd?<br>Beth ydyn ni am ei wneud heddiw?<br>Tynnu sylw at yr arwyddion:<br>'Mae chwarae'n bwysig'<br>'Mae chwarae'n hawl' | Gwrando | Y plant yn deall nod y gweithdy | Arwyddion A4 wedi eu laminadu<br>'Mae chwarae'n bwysig'<br>'Mae chwarae'n hawl' |
| 00:05 | Amser ar gyfer meddyliau a myfyrdodau personol ar chwarae | Y plant i symud o amgylch yr ystafell yn edrych ar luniau o chwarae | Y plant i gael cyfle i ystyried ystod o gyfleoedd chwarae | Tua 20 o ddelweddau wedi eu hargraffu a'u laminadu |
| 00:15 | Sgript:<br>Ydych chi'n gwneud y pethau hyn?<br>Ydyn nhw o flynyddoedd maith yn ôl?<br>Hoffech chi eu gwneud nhw? | Trafodaeth | Y plant i ddechrau ystyried sut y maent yn profi chwarae | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 00:20 | Casglu gwybodaeth – asesiad cychwynnol o faint y mae’r plant yn ei wybod, yn ei wneud ac yn chwarae<br><br>Gêm neidio dros raff / *The Wind Blows* neu Cardiau Bingo | Pwy sydd:<br>• wedi clywed am CCUHP?<br>• wedi cael ei ethol i fod ar y cyngor ysgol?<br>• wedi defnyddio’r rhyngrwyd yr wythnos yma?<br>• wedi treulio amser y tu allan gyda ffrindiau?<br>• wedi blasu rhywbeth newydd?<br>• wedi bod i ddigwyddiad crefyddol?<br>• yn rhan o glwb neu dîm?<br>• wedi cerdded i’r parc chwarae ar eich pen eich hun? | Tiwtor – ennill ymdeimlad o’r wybodaeth sydd gan blant eisoes | Cardiau Bingo |
| 00:30 | CCUHP – beth yw e’?<br>Sgript:<br>• Mae’n ymwneud â hawliau (nid beth ydym ei eisiau)<br>• Mae’n sôn am chwarae (Erthygl 31)<br>• Mae Cymru wedi arwyddo CCUHP<br>• Mae chwarae’n cael ei ystyried yn hawl cyn bwysiced â dy hawl i fod â rhywle i fyw (tŷ), i deimlo’n ddiogel a bod rhywun yn gofalu amdanat ti, mae cyn bwysiced a dy hawl i gael enw… | Gwrando ac adolygu | Deall bod chwarae’n hawl a’i fod cyn bwysiced â’r holl hawliau eraill | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 00:35 | Pam ydych chi'n credu bod athrawon (fel Mr / Miss …..) yn gadael ichi gael amser | Y plant i rannu'n grwpiau bychain i drafod 'Pam ydych chi'n credu bod athrawon yn gadael ichi gael amser chwarae?'<br><br>Ymatebion ar siart fflip | Trafod, blaenoriaethu a dadlau – gallu egluro pam fod amser chwarae mor bwysig | |
| 00:50 | Mae chwarae yn dy helpu. . .<br>(y tiwtor i ddarllen o'r rhestr isod)<br>• i fod yn hapus ac yn iach<br>• i dyfu cyhyrau ac esgyrn cryf<br>• i ddatrys problemau<br>• i wneud ffrindiau<br>• i ddefnyddio dy ddychymyg a bod yn greadigol<br>• i ddysgu pethau<br>• i wthio dy hun (profi / herio)<br>• i fod yn berson anturus, hwyliog<br>• i archwilio ac arbrofi | Y plant i ddefnyddio cardiau goleuadau traffig i bleidleisio<br><br>Gellid ei gynnal ar ffurf gêm 'rhedeg o gwmpas' i greu egni (gosod y lliwiau ar dair wal yn yr ystafell a chael y plant i redeg o un i'r llall i bleidleisio) | Meddwl am bwysigrwydd chwarae | Rhestr 'Mae chwarae yn dy helpu…' |
| 1:00 | Sgript:<br>'Felly, mae chwarae'n gwneud y pethau hyn i gyd – mae hefyd yn dy helpu i wneud yn well yn yr ysgol a bod yn hapus – mae mor bwysig â hynny.'<br><br>Mae angen inni gyd floeddio dros chwarae!<br>Yn blant, yn athrawon ac yn oedolion eraill hefyd<br><br>Ail-edrychwch ar adnoddau Erthygl 31 CCUHP a Sylw Cyffredinol yr IPA | Gwrando ac adolygu | Meddwl am bwysigrwydd chwarae | |
| **Egwyl** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1:05 | Gweithgaredd gofod chwarae – beth ydych yn ei hoffi am eich amser chwarae neu faes chwarae?<br>Llun cyflym – gofynnwch i'r plant alw eu syniadau allan<br><br>Beth allen ni ei wneud i wneud amser chwarae'n well?<br><br>Beth yw'r rhwystrau? Gosodwch y rhain ar falwnau neu gardiau.<br>Sut allwn ni 'chwalu' y rhwystrau?<br><br>Sgript:<br>'Gwaith pwy fydd chwalu a lleihau'r rhwystrau hyn?'<br>Yr ysgol, teuluoedd, plant, gweithwyr chwarae, y cyngor ysgol, athrawon | Meddwl am syniadau ar gyfer man chwarae<br><br>Dynodi rhwystrau i'w cyfleoedd i chwarae | Ystyried rhwystrau i chwarae | Rholiau o bapur wal a phennau ysgrifennu trwchus |
| 1:20 | Cyflwyno'r Goeden Gynllunio<br><br>Beth hoffet ti ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth am eich hawl i chwarae?<br>Iddyn **nhw** weithio arno gyda'u athro / athrawes dosbarth | | | Poster Coeden Gynllunio<br>Poster hawl i chwarae<br>Labeli gludiog<br>'Post-its' siâp dail<br>Defnyddio y Goeden Gynllunio |
| 1:30 | **Diwedd** | | | |

# Defnyddio'r Goeden Gynllunio

Bwriad y Goeden Gynllunio yw darparu ffyrdd ichi gynllunio sut y gallech rannu'r dysg o'r gweithdy neu sut y gallai'r plant ddatblygu ar eu dysg am yr hawl i chwarae. Isod ceir canllaw cam-wrth-gam ar gyfer defnyddio'r Goeden Gynllunio.

**Gan ddefnyddio label gludiog, nodwch enw eich ysgol ar foncyff y goeden**

↓

**Gan ddefnyddio label gludiog, labelwch brif ganghennau'r goeden gyda'r geiriau**

- Yn yr ysgol
- Ar ôl ysgol
- Gŵyl neu ddathliad

↓

**Yna gall y plant a'r athrawon ddefnyddio'r labeli gludiog arbennig i ychwanegu dail ar y goeden gyda'u syniadau ar gyfer yr hyn ddaw nesaf**

↓

**Dyma rai awgrymiadau ar gyfer pethau yr hoffech eu gwneud, efallai:**

- Cyflwyniad i'r cyngor ysgol
- Cyflwyniad i lywodraethwyr yr ysgol
- Cyflwyniad i weddill yr ysgol yn ystod y gwasanaeth boreol
- Cynnal ymgynghoriadau gyda disgyblion eraill am amserau chwarae a meysydd chwarae
- Cynnal digwyddiad chwarae
- Cyd-drafod ag ysgolion eraill sydd wedi cymryd rhan yn y *Gweithdy gawl i chwarae* er mwyn rhannu profiadau
- Paratoi arddangosfa am yr hawl i chwarae
- Cynnal rhywfaint o waith ymchwil i chwarae
- Mynychu digwyddiad ysgol (y ffair haf, er enghraifft) a chasglu atgofion chwarae oedolion
- Mynychu digwyddiad cymunedol er mwyn casglu atgofion chwarae, ymgynghori â'r plant am chwarae neu gynnal stondin sy'n hyrwyddo'r hawl i chwarae

↓

**Defnyddio'r can dŵr i nodi manylion cyswllt pobl a mudiadau all helpu eich Coeden Gynllunio i 'dyfu'**


Our right to Play - Planning tree
Coeden gynllunio - ein hawl i Chwarae
PLAY IS IMPORTANT - MAE CHWARAE YN BWSIG
PLAY IS OUR RIGHT - MAE GENNYM HAWL I CHWARAE
PEOPLE WHO CAN HELP OUR TREE GROW:
POBL ALL HELPU EIN COEDEN DYFU:

# Cerdyn bingo hawl i chwarae

| | | |
|---|---|---|
| **Pwy sydd wedi clywed am CCUHP?** | **Pwy sydd wedi ei ethol ar gyngor yr ysgol?** | **Pwy sydd wedi defnyddio’r rhyngrwyd yr wythnos yma?** |
| **Pwy sydd wedi treulio amser y tu allan gyda’i ffrindiau?** | **Pwy sydd wedi blasu rhywbeth newydd?** | **Pwy sydd wedi bod i ddigwyddiad crefyddol?** |
| **Pwy sy’n rhan o glwb neu dîm?** | **Pwy sydd wedi cerdded i’r parc chwarae ar ei ben ei hun?** | **Pwy sydd wedi teimlo ei fod yn cael ei adael allan?** |

Poster hawl i chwarae CCUHP



# Deilliannau dysgwyr

### Caiff y plant sy'n cymryd rhan yn y gweithdy gyfle i:

- Ddadlau
- Archwilio
- Gyflwyno i'w cyfoedion
- Flaenoriaethu gwybodaeth
- Ddefnyddio sgiliau llythrennedd
- Gynllunio
- Ymgynghori â'u cyfoedion
- Ddysgu am eu hawl i chwarae

### Bydd y plant yn dysgu trwy:

- Annibyniaeth unigol – gwaith a myfyrio unigol
- Gyd-ddibyniaeth – gwaith grŵp a thrafodaethau ar y cyd
- Ddysgu cyfranogol – bydd amrywiol ffyrdd y gall plant gyfranogi yn y sesiwn yn eu hoff fodd eu hunain
- Ddysgu cynhwysol – mae'r sesiwn yn darparu ar gyfer ystod o arddulliau dysgu.

### Bydd ysgolion ac athrawon yn elwa o:

- Gyfleoedd ac arweiniad ar feysydd datblygu'r cwricwlwm (gweler Syniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm)
- Agor trafodaethau gyda phlant, y cyngor ysgol, athrawon, rhieni a llywodraethwyr am syniadau ar gyfer gwella amserau chwarae a thiroedd ysgol
- Plant yn hybu gwerthoedd yn yr ysgol sy'n ymwneud â chwarae teg, hawliau plant, cynhwysiant a gofalu.

Mae nifer o ffyrdd y gall athrawon a disgyblion ehangu ar y gweithdy yn ystod gwersi yn y dosbarth, yn cynnwys:

- Annog y plant i ymuno yn y broses o wella amser chwarae
- Hwyluso sesiwn ystafell ddosbarth sy'n ymwneud â chwarae gan ddefnyddio'r Syniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm
- Defnyddio'r Goeden Gynllunio i ystyried sut y gallent rannu eu dysg.



# Syniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm

Os hoffai'r plant archwilio'r hawl i chwarae ymhellach, dyma rai awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gellid ymgorffori chwarae yn y chwe maes dysgu a phrofiad.

## Celfyddydau Mynegiannol

- Canu am chwarae
- Rhigymau clapio a sgipio
- Gemau canu (fel mae'r ffermwr eisiau gwraig).

## Iechyd a Lles

- Meddwl am chwarae a gwerthoedd
- Meddwl am chwarae a chymdeithasu
- Gemau sgipio
- Rhoi tro ar 'hen' gemau buarth yr ysgol (chwrligwgan, lastig, cylchyn a ffon).

## Y Dyniaethau

- Edrych ar gemau a chwarae o amgylch y byd
- Sut mae chwarae plant yn wahanol mewn gwahanol ddiwylliannau
- Casglu atgofion chwarae oddi wrth oedolion
- Edrych ar sut y mae gemau buarth yr ysgol wedi newid (neu beidio)
- Chwarae cyn datblygiad technoleg ddigidol.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Dysgu a rhoi cyflwyniad ar chwarae a gemau
- Ysgrifennu straeon am anturiaethau chwareus
- Ymchwilio chwarae yn y gymuned leol.

## Mathemateg a Rhifedd

- Edrych ar gemau cyfrif maes chwarae
- Arbrofi gyda marcio'r buarth chwarae (defnyddio sialc i greu siapiau geometrig)
- Mesur maint y maes chwarae i helpu gyda chynllunio.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Chwarae â'r elfennau naturiol – daear, awyr, tân a dŵr
- Sut y defnyddir gwahanol ddeunyddiau mewn chwarae
- Grymoedd a strwythurau mewn offer neu strwythurau chwarae
- Chwarae a'r synhwyrau.



# Chwarae plant: adnoddau i gefnogi

### *Ysgol chwarae-gyfeillgar – Canllaw ar gyfer agwedd ysgol gyfan*

Canllaw sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â pholisi ag arfer er mwyn helpu cymunedau ysgolion i fabwysiadu agwedd ysgol gyfan er mwyn cefnogi hawl plant i chwarae.

Mae wedi ei ddatblygu er mwyn ymateb i adroddiad Estyn *Iach a hapus – effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion*, sy'n nodi pwysigrwydd amserau chwarae ac egwyl mewn ysgolion.

Mae'r canllaw wedi ei ddylunio i gyfoethogi'r gwaith da sy'n cael ei wneud eisoes i ddarparu gwell cyfleoedd chwarae mewn ysgolion ac mae'n anelu i wneud amser pawb yn yr ysgol yn hapusach ac iachach. Ceir nifer o adnoddau cefnogol i gyd-fynd â'r canllaw, sydd i gyd ar gael i'w lawrlwytho.

Cymeradwywyd gan: Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, Plant yng Nghymru, Health & Attainment of Pupils in a Primary Education Network (HAPPEN) a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (NCPHWR).

**www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau/canllawysgolion**

### *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu*

Pecyn cymorth sydd wedi ei ddylunio i gynorthwyo penaethiaid, llywodraethwyr a mudiadau lleol i weithio gyda'i gilydd i ystyried sicrhau bod tiroedd ysgol ar gael i blant lleol y tu allan i oriau addysgu.

Mae wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth eglur a chryno ar gyfer cymunedau ysgolion a'u partneriaid, er mwyn asesu ymarferoldeb gwneud yn siŵr bod tiroedd ysgol ar gael ar gyfer chwarae plant y tu allan i oriau addysgu. Mae'r pecyn cymorth yn edrych ar yr amrywiol faterion fydd angen eu hystyried. Mae'n cynnwys dyfyniadau gan benaethiaid ac astudiaethau achos sy'n arddangos amrywiol fodelau.

**www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion**

### *Adnoddau ar gyfer chwarae – darparu rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant*

Pecyn cymorth i gefnogi oedolion yn y sectorau chwarae, blynyddoedd cynnar ac addysg i ddarparu chwarae rhannau rhydd yn eu lleoliadau. Mae rhannau rhydd yn creu amgylcheddau cyfoethocach i blant chwarae, gan roi'r adnoddau y maent eu hangen iddynt ymestyn eu chwarae.

Nodau'r pecyn cymorth:

- I gynyddu ymwybyddiaeth am werth rhannau rhydd i chwarae plant
- I ddarparu arweiniad ymarferol am chwarae rhannau rhydd i'r rheini sy'n gweithio gyda phlant o bob oed
- I eiriol dros ddefnyddio rhannau rhydd fel dull ar gyfer datblygu cyfleodd chwarae yn y cartref, yr ysgol ac yn y gymuned.

**www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthrhannaurhydd**

### *Meddwl am rannau rhydd mewn ysgolion*

Mae'r daflen wybodaeth hon yn anelu i ddarparu gwybodaeth i ymarferwyr yn y sector addysg am ddefnyddio deunyddiau chwarae rhannau rhydd yn ystod amser chwarae ac yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n cyflwyno ystod eang o ymchwil sy'n trafod ymyriadau rhannau rhydd yn ystod amser chwarae ac yn adrodd ar ganfyddiadau o astudiaeth amser cinio benodol. Mae'n cyflwyno enghreifftiau a chynghorion ar sut y mae defnyddio a darparu rhannau rhydd yn cefnogi dysg dan arweiniad y plentyn mewn lleoliad ysgol.

Yn ychwanegol, mae'n cynnwys atodiad defnyddiol sy'n amlinellu ymchwil ar sut y mae chwarae'n cefnogi dysg, datblygiad, gweithgarwch corfforol, iechyd a lles plant.

**www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau/taflennigwybodaeth**

## Cylchgrawn *Chwarae dros Gymru* – rhifyn chwarae mewn ysgolion

Mae'r rhifyn hwn o gylchgrawn *Chwarae dros Gymru* yn canolbwyntio ar chwarae mewn ysgolion. Mae'n cynnwys erthyglau ar:

- Amser, lle a chaniatâd i chwarae yn yr ysgol – gan gynnwys esiampl o bolisi chwarae ysgol
- Chwarae rhannau rhydd yn Ysgol Gynradd Mount Stuart – ysgrifennwyd gan athrawes sy'n defnyddio rhannau rhydd ar gyfer dysg a arweinir gan y plentyn
- Hawliau chwarae ac addysg: creu cysylltiadau
- Gweithgarwch corfforol plant a phobl ifanc
- Ymchwil: hawl plant i chwarae mewn ysgolion – trosolwg gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Manceinion
- Cyd-ddatganiad ar chwarae plant – negeseuon allweddol ar gyfer ysgolion
- Cymunedau chwareus – chwarae amser cinio yn Ysgol Tŷ Ffynnon.

**www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau/cylchgrawn**

## Plentyndod Chwareus

Mae gwefan *Plentyndod Chwareus* yn anelu i helpu rhieni, gofalwyr, a grwpiau cymunedol i roi digon o gyfleoedd da i blant chwarae. Gall gweithwyr proffesiynol hefyd ddefnyddio'r adnoddau ar y wefan yn eu gwaith gyda phlant a theuluoedd.

Mae gwefan *Plentyndod Chwareus* yn anelu i:

- Helpu rhieni a gofalwyr i roi amser, lle a chefnogaeth i blant chwarae yn eu cartref ac yn eu cymuned leol
- Cefnogi grwpiau lleol a chynghorau tref a chymuned i gynnig cymdogaethau chwarae-gyfeillgar yn eu hardaloedd
- Darparu adnoddau all gael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol yn eu gwaith gyda phlant atheuluoedd.

*Mae Plentyndod Chwareus yn ymgyrch gan Chwarae Cymru.*

**www.plentyndodchwareus.cymru**



# Nodiadau

Tachwedd 2020

© Chwarae Cymru

www.chwaraecymru.org.uk

Elusen cofrestredig, rhif 1068926